# PWYLLGOR CRAFFU
# LLE, CYNALIADWYEDD A NEWID HINSAWDD

## 21 GORFFENNAF 2023

**YN BRESENNOL** Cynghorydd K. Madge (Cadeirydd) (**Yn y Siambr)**

**Cynghorwyr (Yn y Siambr):**
J.D. James; K. Davies; T.A.J. Davies; N. Lewis;
B.D.J. Phillips; G.B. Thomas; S. Godfrey-Coles.

**Cynghorwyr (Yn rhithwir):**
S.M. Allen; T.M. Higgins;
Cynghorydd D.M Cundy yn lle'r Cynghorydd P. Cooper;
Cynghorydd R. Sparks yn lle'r Cynghorydd C. Evans.

**Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):**
Cynghorydd A. Vaughan Owen, Yr Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd, Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd;
Cynghorydd E. Thomas, Yr Aelod Cabinet dros Transport, Gwasanaethau Trafnidiaeth,

**Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):**
S. Pilliner, Pennaeth Priffyrdd a Thrafnidiaeth;
D.W. John, Pennaeth Gwasanaethau Gwastraff ac Amgylcheddol Dros Dro ;
L. Jenkins, Swyddog Cymorth y Cabinet;
L. Davies, Prif Gyfieithydd;
R. Morris, Swyddog Cefnogi Aelodau;
J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

**Hefyd yn bresennol (Yn rhithwir):**
S.E. Watts, Rheolwr Diogelu'r Amgylchedd;
M. Runeckles, Swyddog Cefnogi Aelodau.

**Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin, SA31 1JP ac o bell: 2:00yp - 3:35yp**

### 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB A MATERION ERAILL

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr P. Cooper a C. Evans.

Ar ran y Pwyllgor, dymunodd y Cadeirydd y gorau i Mr Stephen Pilliner, Pennaeth Trafnidiaeth a Phriffyrdd, yn ei ymddeoliad ym mis Medi. Diolchwyd i Mr Pilliner am ei ymroddiad a'i waith caled yn y Cyngor ar hyd y blynyddoedd, ac am ei gefnogaeth amhrisiadwy i'r Pwyllgor Craffu.

### 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL GAN GYNNWYS UNRHYW CHWIPIAU PLEIDIAU A RODDIR MEWN YMATEB I UNRHYW EITEM AR YR AGENDA.

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant personol.
Ni chafwyd dim datganiadau ynghylch unrhyw chwip waharddedig.

## 3. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

## 4. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR CRAFFU LLE, CYNALIADWYEDD A NEWID YR HINSAWDD 2022/23

Cafodd y Pwyllgor ei Adroddiad Blynyddol ar y gwaith a gyflawnwyd yn ystod blwyddyn y cyngor 2022/23. Nodwyd bod yr adroddiad wedi'i baratoi'n unol ag Erthygl 6.2 o Gyfansoddiad y Cyngor a'i fod yn rhoi trosolwg o'r rhaglen waith a materion allweddol dan sylw, gan gynnwys hefyd unrhyw faterion a gyfeiriwyd at neu gan y Cabinet, adolygiadau Gorchwyl a Gorffen a sesiynau datblygu.

Cyflwynodd cyn-Gadeirydd y Pwyllgor Craffu Lleoedd, Cynaliadwyedd a Newid Hinsawdd yr adroddiad a rhoddodd drosolwg o raglen waith y Pwyllgor ynghyd â'r materion allweddol a ystyriwyd yn ystod y flwyddyn. Estynnwyd diolch i aelodau'r Pwyllgor am eu gwaith a'u hymrwymiad drwy gydol y flwyddyn ac i swyddogion am eu cymorth a'u cefnogaeth amhrisiadwy.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Craffu - Lle, Cynaliadwyedd a Newid Hinsawdd ar gyfer 2022/23.**

## 5. BLAENRAGLEN WAITH AR GYFER 2023/24

Ystyriodd y Pwyllgor, yn unol ag Erthygl 6.2 o Gyfansoddiad y Cyngor, ei Flaengynllun Gwaith drafft ar gyfer 2023/24.

Yn ei sesiwn datblygu Blaengynllun Gwaith anffurfiol ar 13 Mehefin 2023, dechreuodd y Pwyllgor y broses o lunio'r blaengynllun gwaith ar gyfer 2023/24. Mae canlyniad y sesiwn ddatblygu bellach wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor yn y Blaengynllun Gwaith i'w gadarnhau.

Datblygodd yr Aelodau Flaengynllun Gwaith y Pwyllgor gan ystyried y materion ac unrhyw bynciau sy'n peri pryder o fewn cylch gwaith y Pwyllgor Craffu Lle, Cynaliadwyedd a Newid Hinsawdd, gan reoli pob agenda trwy Fethodoleg y Porth.

Hefyd, drwy gydol y flwyddyn, nododd yr Aelodau y byddent yn ystyried Blaengynllun Gwaith y Cabinet er mwyn nodi adroddiadau cyn gwneud penderfyniadau y maent am eu rhoi ar y Blaengynllun Gwaith Craffu

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo'r Blaengynllun Gwaith Lle, Cynaliadwyedd a Newid Hinsawdd ar gyfer 2023/24.**

## 6. ADRODDIAD TERFYNOL GRWP GORCHWYL A GORFFEN ADOLYGIAD O REOLI TIPIO ANGHYFREITHLON YN SIR GAERFYRDDIN

Cafodd y Pwyllgor adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen a sefydlwyd ar 24 Tachwedd 2022, er mwyn adolygu'r gwaith o Reoli Tipio Anghyfreithlon yn Sir Gaerfyrddin.

Eglurodd Cadeirydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen fod yr argymhellion yn yr adroddiad wedi eu llunio gan y Grŵp ar ôl ystyried ystod o dystiolaeth, dros gyfres o gyfarfodydd a gynhaliwyd rhwng Rhagfyr 2022 a Mehefin 2023.

Dywedwyd bod y Grŵp, yn unol â chwmpas yr adolygiad, yn ystyried ac yn gwerthuso'r prosesau mewnol, materion gweithredol, a'r trefniadau partneriaeth presennol o dipio anghyfreithlon ar dir cyhoeddus a phreifat ac yn ceisio cynyddu effeithiolrwydd yr adnoddau sydd ar gael.

Casglwyd gwybodaeth am y materion mewn perthynas â tipio anghyfreithlon ar dir preifat a chyhoeddus ac fel rhan o'r broses i sicrhau bod canfyddiadau ac argymhellion clir. Nodwyd y meysydd canlynol fel meysydd ffocws o dan ddull strategol:

- Dull cyfredol o ymdrin â systemau data a chofnodi.
- Ymagwedd at addysg ac atal.
- Trefniadau rheoli a chydweithio.
- Dull gorfodi; a
- Chyfathrebu a chyhoeddusrwydd.

Manteisiodd Cadeirydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar y cyfle i ddiolch i'r holl sefydliadau, unigolion a swyddogion a fu'n ymgysylltu â'r Grŵp a'i gynorthwyo. Roedd eu hamser a'u hymrwymiad yn rhoi cipolwg amhrisiadwy ar faterion lleol yn ymwneud â tipio anghyfreithlon a'r hyn oedd yn cael ei gyflawni ar hyn o bryd yn ogystal â'r hyn y gellid ei wneud.

Rhoddwyd sylw i'r ymholiad canlynol wrth drafod yr adroddiad:

- Mewn ymateb i ymholiad ynglŷn â darpariaeth teledu cylch cyfyng, eglurodd Pennaeth y Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwastraff, er bod nifer o unedau teledu cylch cyfyng ar waith ar draws y sir ar hyn o bryd, mai'r mater o ran cynyddu'r ddarpariaeth yn ymwneud â'r gallu i osod yr unedau. Roedd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn ystyried defnyddio teledu cylch cyfyng ac fel yr amlygwyd y dystiolaeth, roedd defnyddio teledu cylch cyfyng yn werthfawr wrth atal tipio anghyfreithlon a chasglu tystiolaeth ar gyfer erlyniad posibl. Er mwyn mynd i'r afael â thipio anghyfreithlon, roedd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen wedi argymell, fel rhan o strategaeth tipio anghyfreithlon, y dylid cynyddu'r defnydd o unedau teledu cylch cyfyng mewn modd strategol ar draws y Sir a fyddai'n cael ei gyflawni drwy gynllun gweithredu cadarn.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod yr adroddiad yn cael ei dderbyn a'i gyfeirio at y Cabinet i gael ei ystyried.**

## 7. DIWEDDARIAD AR GYFER YSTYRIED GORCHYMYN DIOGELU MANNAU AGORED CYHOEDDUS YCHWANEGOL AR GYFER GORCHMYNION CWN SIR GAERFYRDDIN

Cafodd y Pwyllgor adroddiad, wedi'i gyflwyno gan yr Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd, Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd, oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ystyried gorchymyn gwarchod mannau cyhoeddus ychwanegol ar gyfer Gorchmynion Cŵn Sir Gaerfyrddin.

Yn ei gyfarfod ar 24 Tachwedd 2022, argymhellodd y Pwyllgor i gyflwyno gwaharddiad ledled y Sir o gŵn yn mynd i gae chwaraeon wedi'i farcio a chyflwyno Hysbysiad Cosb Benodedig am y drosedd o beidio â gallu glanhau ar ôl eich ci. Amlygwyd i'r aelodau bod Cyngor Cyfreithiol wedi nodi bod angen i unrhyw Orchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus fod yn seiliedig ar dystiolaeth, ac yn ymateb cymesur i'r problemau a oedd yn digwydd. O safbwynt cyfreithiol, ystyriwyd nad oedd digon o dystiolaeth wedi'i derbyn hyd yma i ddangos yn ddigonol bod cyflwyno Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus ledled y Sir i fynd i'r afael â'r broblem hon yn gymesur.

Yng ngoleuni hyn, rhoddodd yr adroddiad ddiweddariad i Aelodau'r Pwyllgor a'r opsiynau sydd ar gael i'r Awdurdod yn seiliedig ar gyngor cyfreithiol a roddwyd. Roedd yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth a chymesuredd y dull arfaethedig o ymdrin â Gorchmynion Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus ar gyfer baw cŵn ar gaeau chwaraeon. Gofynnwyd i'r Pwyllgor adolygu'r opsiynau canlynol a argymhellwyd fel y'u darperir yn yr adroddiad o ran mynd i'r afael â materion Ymddygiad Gwrthgymdeithasol sy'n Gysylltiedig â Chŵn.

- Yr Awdurdod i ddrafftio ffurflen safonol a phecyn cymorth ar gyfer grwpiau chwaraeon / cynghorau tref a chymuned i'w cefnogi ar gyfer gweithredu cymunedol.

- Darparu templed tystiolaeth i ddisgrifio natur a maint y broblem mewn lleoliadau penodol i gefnogi gorchmynion ychwanegol a allai fod yn briodol.

- Cyflwyno Hysbysiad Cosb Benodedig am y drosedd o beidio â gallu glanhau ar ôl eich ci mewn mannau cyhoeddus.

Holwyd ynghylch y canlynol mewn perthynas â'r adroddiad:

- Dywedwyd ei bod yn anodd i'r cyhoedd fod yn ymwybodol o le mae Gorchmynion Gwarchod Mannau Cyhoeddus ar waith, oherwydd y diffyg arwyddion, ac felly awgrymwyd bod mwy o arwyddion yn cael eu cyflwyno drwy gydweithio â Chynghorau Tref a Chymuned.

- Dywedwyd y dylid rhoi'r pwerau i Swyddogion Cymorth Cymunedol o fewn Heddlu Dyfed-Powys i orfodi cyfraith y Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus fel y maent yn ei wneud mewn heddluoedd eraill yng Nghymru.

- Wrth gyfeirio at nifer y cwynion a ddaeth i law, gwelwyd bod y nifer a nodwyd yn yr adroddiad yn ymddangos yn isel iawn o ystyried bod Aelodau sy'n cynrychioli Cynghorau Cymuned yn derbyn nifer uchel o gŵynion am faw cŵn. Amlygwyd felly nad oedd achosion o faw cŵn a chwynion yn cael eu hadrodd yn ffurfiol i'r Cyngor Sir.

  Wrth gytuno â'r pwynt a godwyd, dywedodd yr Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd, Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd fod Aelodau Cyngor, rhai Cyngor Tref/Cymuned a'r Awdurdod, yn dueddol o ymdrin â materion baw cŵn, ac eithrio'r cam ychwanegol i adrodd amdano i'r Awdurdod. Mae hyn yn golygu nad yw'r Awdurdod yn cael y wybodaeth a'r dystiolaeth leol y mae mawr ei hangen i reoli'r mater. Wrth gydnabod hyn, dywedwyd ei bod yn bwysig dangos yn glir yr hyn y mae'r broses yn ei gynnwys yn ystod y broses ymgysylltu. Byddai hyn yn galluogi swyddogion gorfodi i gael eu defnyddio ar sail cudd-wybodaeth leol a dderbyniwyd. Yn ogystal, gan gyfeirio at y sylw a godwyd yn gynharach ynghylch arwyddion, eglurodd yr Aelod Cabinet y byddai'r pecyn cymorth yn cael ei ddylunio i gynorthwyo Cynghorau Tref a Chymuned gydag arwyddion generig y gellir eu haddasu i fodloni anghenion yr ardal ac i gyd-fynd â phersbectif mwy lleol.

- Mewn ymateb i ymholiad a godwyd o ran datganoli'r pwerau gorfodi i Gynghorau Tref a Chymuned, eglurodd yr Aelod Cabinet, er y byddai'n rhaid i'r pwerau gorfodi aros gyda'r Awdurdod, byddai'r data a gesglir yn deillio o'r Cynghorau Tref a Chymuned a fyddai'n darparu gwybodaeth hanfodol wrth alluogi'r Awdurdod i gyfeirio'r adnoddau cyfyngedig i ardaloedd lle mae problemau wedi'u nodi. Byddai'r opsiwn a argymhellir o ddatblygu pecyn cymorth yn grymuso Grwpiau Chwaraeon a Chynghorau Tref a Chymuned i gasglu digon o dystiolaeth er mwyn cefnogi gwaith Swyddogion Gorfodi.

- I gydnabod yr ardaloedd gwledig helaeth yn Sir Gaerfyrddin, gofynnwyd sut yr oedd yr her o gyfeirio adnoddau wedi'i goresgyn? Eglurodd yr Aelod Cabinet fod yr Awdurdod yn cyflogi 8 Swyddog Gorfodi ar hyn o bryd i gwmpasu ardal gyfan Sir Gaerfyrddin ac felly byddai derbyn gwybodaeth leol gan y cyhoedd a Chynghorau lleol yn chwarae rhan sylweddol wrth gyfeirio a blaenoriaethu adnoddau'n effeithiol i'r ardaloedd lle mae angen sylw.

- Cynigiwyd bod y pecyn cymorth ar gael i'r Pwyllgor Craffu wneud sylwadau ar ôl ei gwblhau. Eiliwyd y cynnig hwn. Croesawodd yr Aelod Cabinet ddiddordeb y Pwyllgor mewn derbyn y pecyn cymorth a byddai'n sicrhau ei fod ar gael i wneud sylwadau cyn iddo fynd yn fyw.

- Mewn ymateb i sylw cynharach ynghylch Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu, codwyd bod ganddynt y pwerau i orfodi yn achos torri Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus ar hyn o bryd, ond roedd yn ymddangos nad hon oedd y flaenoriaeth. Awgrymwyd bod yr Aelod Cabinet yn cysylltu â'r Cwnstabl Heddlu a/neu'r Comisiynydd i ofyn am eu sylwadau ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:**

**7.1 dderbyn yr adroddiad;**

**7.2 bod y Cabinet yn nodi ac yn ystyried y sylwadau a godwyd gan y Pwyllgor wrth iddo ystyried yr opsiynau a argymhellir mewn perthynas â mynd i'r afael â Materion Ymddygiad Gwrthgymdeithasol sy'n gysylltiedig â Chŵn fel y nodir yn yr adroddiad.**

**7.3 bod y ffurflen safonol ddrafft a'r pecyn cymorth ar gyfer grwpiau chwaraeon / cynghorau tref a chymuned fel yr argymhellwyd yn yr adroddiad yn cael eu rhannu gyda'r Pwyllgor er mwyn iddo wneud sylwadau.**

## 8. ADOLYGIAD O BARCIO AM DDIM

Cafodd y Pwyllgor adroddiad ar yr Adolygiad Parcio am Ddim i'w ystyried. Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Drafnidiaeth, Gwastraff a Seilwaith, wrth gyflwyno'r adroddiad, fod y Cyngor wedi cefnogi canol trefi o ran darparu cynlluniau parcio am ddim am nifer o flynyddoedd, a bod dau gynllun ar waith ar hyn o bryd. Roedd y cynllun cyntaf yn darparu pum niwrnod parcio am ddim bob blwyddyn mewn canol trefi, roedd yr ail gynllun a gyflwynwyd ar ddiwedd 2018 yn darparu cyfnodau parcio am ddim mewn canol trefi am oriau penodol ac ar ddyddiau penodol yr wythnos.

Rhoddodd yr adroddiad wybodaeth gynhwysfawr a data graffigol i'r aelodau a oedd yn ystyried effaith y cynlluniau o safbwynt allbwn a refeniw.

Ar ôl ystyried yr adroddiad, gofynnwyd i'r Pwyllgor ystyried y 5 opsiwn fel y manylir arnynt yn yr adroddiad.

Holwyd ynghylch y canlynol mewn perthynas â'r adroddiad:

- Canmolwyd yr adroddiad am ei wybodaeth gynhwysfawr a'i gynhwysiant a'i ddefnydd o 7 mlynedd o ddata cadarn. Fodd bynnag, codwyd y byddai'n fuddiol cael golwg ar y data/tystiolaeth i gefnogi'r datganiad – 'Mae meysydd parcio'n gwasanaethu amcan amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol hynod bwysig sy'n cynnwys... ysgogi teithio cynaliadwy'.

  Yn ogystal, codwyd nad oedd y data o fewn yr adroddiad yn rhoi unrhyw dystiolaeth bod parcio ceir am ddim wedi gwneud unrhyw wahaniaeth o ran nifer yr ymwelwyr â chanol trefi.

  At hynny, dywedwyd y byddai parcio am ddim yn mynd yn groes i'r amcan o weithio tuag at deithio mwy cynaliadwy ac annog gyrwyr i ddefnyddio eu cerbydau'n fwy na dulliau teithio eraill fel trafnidiaeth gyhoeddus neu feicio.

  Mynegwyd barn na fyddai opsiwn 2 yn cael ei gefnogi, fodd bynnag, ffafriwyd opsiynau 4 a/neu 5.

- Mynegwyd pryder ynghylch opsiwn 5. O ystyried yr argyfyngau costau byw presennol, byddai cael gwared ar barcio ceir am ddim yn cael effaith niweidiol ar fusnesau.

- Mewn ymateb i ymholiad a godwyd ynghylch pwy fyddai'n pennu'r dyraniad cyllideb fel y'i nodwyd yn opsiwn 4, eglurodd y Pennaeth Trafnidiaeth a Phriffyrdd fod y dyraniad wedi digwydd ar ôl derbyn y cyllid yn 2008. At hynny, cyfeiriwyd at y graffiau yn yr adroddiad a oedd yn dynodi lefelau gwahanol o weithgarwch parcio o fewn trefi o ran gwerthu tocynnau.

  Roedd cyfran y gwerthiannau a'r refeniw mewn perthynas â phob tref, ynghyd ag ymgynghori â'r Cyngor Tref a Chymuned yn pennu lefel y gyllideb a ddyrennir.

  Mynegwyd yn gryf ei bod yn bwysig annog ymwelwyr cyn belled ag y bo modd er mwyn cefnogi busnesau mewn trefi ac felly mae'n rhaid i barcio am ddim aros yn opsiwn.

- Wrth gydnabod bod canol trefi yn profi cyfnod heriol yn ariannol, mynegwyd pryder y byddai'r cynnydd o 5% mewn taliadau, ynghyd â'r gostyngiad arfaethedig mewn parcio am ddim yn cael effaith niweidiol ar gwsmeriaid a masnachwyr. Yn seiliedig ar yr ystadegau presennol yn yr adroddiad, mynegwyd barn mai'r dewis fyddai cadw'r sefyllfa bresennol.

- Dywedwyd bod yr adroddiad yn llawn data ac yn cynnwys olrhain a dylanwad y parcio. Yn ogystal, codwyd y dylid llongyfarch y Cyngor am gydnabod yr argyfyngau costau byw presennol a bod yr opsiynau a ddarperir i'w hystyried yn sensitif i anghenion trigolion Sir Gaerfyrddin. Fodd bynnag, yn y cyd-destun, pwysleisiwyd bod yr Aelodau wedi cymryd rhan yn yr adolygiad cyllideb yn ddiweddar gan edrych ar arbed £55k drwy gau Canolfan Hamdden Sanclêr. Roedd yn ymddangos bod y ffigurau a nodir yn yr adroddiad hwn yn is na'r targed lle'r oedd disgwyl incwm o £817k. Yng ngoleuni hyn, codwyd pryder o ran darparu parcio am ddim, yn enwedig opsiwn 2, a fyddai'n gofyn am wariant ychwanegol o tua £400k i ddarparu'r parcio am ddim.

- Amlygwyd pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng ymddygiad teithio ac annog pobl i ymweld â chanol trefi ac felly opsiwn 4 oedd yr opsiwn a ffefrir.

- Mynegwyd y byddai etholwyr yn ddiolchgar i arbed arian ar barcio ceir yn ystod yr argyfyngau costau byw presennol. Fodd bynnag, o ran digwyddiadau, amlygwyd y byddai digwyddiadau mawr mewn unrhyw achos yn denu llawer o bobl a fyddai'n gyfle i godi'r refeniw o'r meysydd parcio.

- Wrth dynnu sylw at y ffaith bod gwariant cyfartalog y tymor parcio bob blwyddyn yn cyfateb i lai nag £1 yr wythnos nad oedd yn afresymol, roedd yn bwysig ystyried y golled o ran refeniw i'r Awdurdod lleol, sef bron i £250k gyda chyfanswm colled net mewn incwm o £409k. Byddai edrych ar y ffigurau hyn yn galluogi refeniw cyllideb hyfyw. Codwyd pryder mewn perthynas â cholli busnesau yn y trefi oherwydd nifer o ffactorau gan gynnwys effaith y pandemig a chynnydd siopa ar y rhyngrwyd. Dylai chwilio am gyfleoedd i ddod ag adnoddau ac arian yn ôl i Sir Gaerfyrddin fod o'r pwys mwyaf.

- Cyfeiriwyd at yr ardaloedd ansawdd aer gwael yn Sir Gaerfyrddin. I gydnabod yr angen i wella ansawdd aer, mynegwyd bod angen i'r Awdurdod o leiaf annog defnydd ysgafn o gerbydau a datblygu polisïau sy'n annog teithio llesol, trafnidiaeth gyhoeddus gyda'r dewis o ddefnyddio cerbyd yn ddewis olaf yn ddyddiol.

Cynigiwyd bod:

Opsiynau 4 a 5 fel y nodir yn yr adroddiad yn cael eu hargymell i'r Cabinet eu hystyried. Eiliwyd y Cynnig.

Yna, cafodd y gwelliant canlynol ei gynnig a'i eilio:

“Bod opsiwn 4 yn unig fel y nodir yn yr adroddiad yn cael ei argymell i'r Cabinet ei ystyried.”

Yn dilyn pleidlais, cwympodd y gwelliant a phleidleisiwyd ar y cynnig terfynol, ac yn dilyn hynny

**PENDERFYNWYD ARGYMELL I'R CABINET ystyried opsiynau 4 a 5 fel y manylir yn yr adroddiad.**

## 9. EITEMAU AR GYFER Y DYFODOL

Cafodd y Pwyllgor restr o'r eitemau a fyddai'n cael eu hystyried yn ei gyfarfod nesaf ar 3 Hydref 2023.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gytuno ar y rhestr o'r eitemau i'w hystyried yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 3 Hydref 2023.**

## 10. LLOFNODI YN GONOD CYWIR COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 15 MAI 2023

**PENDERFYNWYD bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 15 Mai 2023 yn cael eu derbyn fel cofnod cywir.**

**CADEIRYDD** ____________________ **DYDDIAD** ____________________